# Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

12:00 – 13:00, Dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023

Cyfarfod Rhithiol, Microsoft Teams

Cofnodion

## Aelodau'r Senedd

Delyth Jewell AS

Carolyn Thomas AS

Anna Banks (ar ran Samuel Kurtz AS)

Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS)

## Yn Bresennol

Amy Ravitz-Williams

Andrew Donald

Andy Billcliff

Andy Fewings

Andy Regan

Angharad Davies

Ben Lewis

Carmen Smith

Charles Williams

Chris Jackson

Clare Dance

Clare Jones

Craig Harrison

Daniel Taylor

David Brown

David Jones

Elizabeth Dunn

Elliot Smith

Ffion Davies

Gemma Delafield

Hayley Warrens

Huw Lewis

Ian Masters

Ifer Gwyn

Ioan Dobbin

Jack Pugsley

James Radcliffe

Jasmine Wheeler

Jennifer Jordan

Jeremy Smith

Jess Hill

Jessica Hooper

John Young

Jon Fox

Joshua Morris

Kevin Ashcroft

Kirsty Fox Hay

Leslie Walker

Lorna Scurlock

Louis Kirkup

Lydia Godden

Manon Kynaston

Matt Telfer

Neil Lewis

Rachel Kennedy

Rebecca Williams

Robert Chapman

Robert Gibbons

Robin Johnson

Rosemary Grogan

Ruth Lovell

Sara Dryhurst-Roberts

Sara Powell-Davies

Sarah Jones

Simon Morgan

Suzie Saunders

Tim Heatley

Tony Cooke

Trevor Hunter

## Eitem agenda 1: Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol a chyflwyno'r siaradwyr.

## Eitem agenda 2: Jessica Hooper

Rhoddodd Jessica Hooper, Cyfarwyddwr RenewableUK Cymru, gyd-destun ar dargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru a'r cynnydd hyd yma. Cyflwynodd wybodaeth o adroddiad RenewableUK Cymru, *Ynni'r Dyfodol Cymru: Rôl Dyngedfennol Ynni Gwynt Cymru*. Tynnodd Jessica sylw at y ffaith bod angen 'naid enfawr' i gyrraedd y targedau, gyda'r angen i gynyddu'r capasiti ynni gwynt bedair gwaith mewn ychydig dros ddegawd. O ran cynllunio, nododd fod yr amserlenni cyflawni ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y tir yn dangos cyfraddau caniatáu isel a phroses gynllunio araf. Eglurodd, ynghyd â diffyg seilwaith grid, fod hyn yn dal y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn ôl.

## Eitem agenda 3: Liz Dunn

Rhoddodd Liz Dunn, Partner yn Burges Salmon LLP, gyflwyniad i'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyflwr presennol cynllunio, gan ganolbwyntio ar bolisi, deddfwriaeth ac adnoddau. Darparodd y cyd-destun polisi presennol ar gyfer cynllunio yng Nghymru, gan dynnu sylw at y newidiadau diweddar i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru yn benodol. O ran deddfwriaeth, esboniodd Liz nodweddion allweddol y Bil Seilwaith (Cymru), gan bwysleisio y bydd manylion is-ddeddfwriaeth a pholisi'n hollbwysig i lwyddiant y bil fframwaith. Yn olaf, o ran adnoddau, dywedodd na all y system gynllunio weithredu heb adnoddau priodol ac awgrymodd fod y diffyg adnoddau presennol yn tanseilio'r broses gynllunio a cheisiadau. Nododd Liz atebion posibl a gefnogir gan y diwydiant, gan gynnwys adnodd canolog o arbenigedd.

## Eitem agenda 4: Cwestiynau/trafodaeth

Cadeiriodd Delyth Jewell drafodaeth a gwahoddwyd cwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol.

*C1: Beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod storio batris yn rhan o'r arlwy ynni yn ogystal ag ynni gwynt?*

Nododd Jessica Hooper fod ynni gwynt yn cael ei ffafrio ar hyn o bryd gan mai dyma'r dechnoleg brofedig a'i bod yn 'rhy rad i gael ei hanwybyddu'. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod gan storio batris rôl arwyddocaol i'w chwarae. Hyrwyddodd yr angen am gymysgedd ynni amrywiol yn y daith tuag at gyrraedd targedau sero net a thargedau ynni adnewyddadwy.

*C2: Pam nad oes mwy o ynni solar yn cael ei gynllunio yng Nghymru?*

Awgrymodd Liz Dunn fod dehongliad Llywodraeth Cymru o bolisi sy'n ymwneud â'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Dywedodd ei bod yn debygol y byddai mwy o brosiectau wedi'u cyflwyno pe bai'r polisi wedi bod yn gliriach. Fodd bynnag, nododd Liz fod yna bellach nifer o brosiectau solar yn dod trwy'r broses DAC a chydnabu rôl bwysig ynni solar.

*C3: Sut mae cymell cwmni preifat i fuddsoddi'n helaeth yng Nghymru a seilwaith grid?*

Tynnodd Jessica Hooper sylw at grŵp grid RenewableUK Cymru sydd wedi'i gynnull fel gweithgor i wneud cynnydd yn y maes hwn.

*C4: Sut mae cydbwyso'r amcanion deuol o gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy a diogelu natur a bioamrywiaeth?*

Nododd Liz Dunn sut y gall yr amcanion hyn wrthdaro ar lefel polisi weithiau, ond nododd nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd. Disgrifiodd sut y gall prosiectau ynni adnewyddadwy fod yn alluogwyr i wella bioamrywiaeth a natur, megis adnoddau mawn. Cyfeiriodd Liz at Fferm Wynt Pen y Cymoedd a adeiladwyd ar dir coedwigaeth CNC ac sy'n cyflawni gwaith adfer mawn a chyllid fel rhan o'r prosiect.

*C5: Beth yw rôl cynnwys y gymuned mewn prosiectau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol?*

Dywedodd Jessica Hooper fod yn rhaid i'r llywodraeth a'r diwydiant gydweithio i godi ymwybyddiaeth o'r manteision cymunedol sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy. Nododd y gwaith penodol sydd ei angen ar hyn mewn perthynas â datblygu seilwaith grid. Siaradodd Liz Dunn am sicrhau bod y cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â phrosiectau'n aros yng Nghymru, achub ar y cyfle o swyddi i bobl sy'n agos at brosiectau ac annog cymunedau i ymfalchïo yn eu datblygiadau lleol. Asesodd fod Llywodraeth yr Alban wedi bod yn fwy effeithiol na Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

## Eitem agenda 5: Sylwadau Cloi

Cynigiodd y Cadeirydd sylwadau cloi a nododd y bydd gwybodaeth am y cyfarfod nesaf a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei rhannu maes o law. Gofynnodd i fynychwyr gysylltu â Cadno os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am y Grŵp Trawsbleidiol.